# Cynnal cofnodion llys a thribiwnlys

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â chynnal cofnodion yn ymwneud â gwrandawiadau mewn llysoedd a thribiwnlysoedd. Mae'n cynnwys cadw cofnod o drafodion achos, paratoi papurau dilynol a chadw cofnodion a thystiolaeth yn ddiogel.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal cofnodion, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol, gan gynnwys: 2. cofnodi trafodion a chanlyniadau achosion ar systemau, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 3. gwneud yn siŵr fod dogfennau llys yn cael eu llofnodi a'u cofnodi, yn unol â gofynion sefydliadol 4. cyfeirio ymholiadau y tu allan i'ch arbenigedd neu'ch awdurdod at bobl berthnasol, yn unol â gofynion sefydliadol 5. hysbysu partïon am ganlyniadau achosion, yn unol â gofynion sefydliadol 6. nodi gorchmynion brys a dybryd, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 7. cyhoeddi gorchmynion brys a dybryd, yn unol â gofynion sefydliadol 8. nodi dogfennau a thystiolaeth i'w coladu a'u cadw, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 9. cadw dogfennau a thystiolaeth, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 10. cadw dogfennau a thystiolaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 11. trefnu bod gwybodaeth ar gael i'r rheiny sydd ei hangen ac sydd â hawl iddi, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer cofnodi trafodion achos a phwysigrwydd dilyn y rhain yn gywir
2. pwysigrwydd cynnal cofnodion cywir o ganlyniadau achosion a sut i wneud hyn
3. y partïon i'w hysbysu am ganlyniadau achosion a gwybodaeth y mae ganddynt hawl i'w chael
4. amgylchiadau sy'n gofyn am gyhoeddi gorchmynion brys a dybryd a sut i wneud hyn
5. terfynau eich awdurdod ac at bwy y dylid cyfeirio os eir y tu hwnt i'r rhain
6. gofynion sefydliadol yn ymwneud â dogfennau a thystiolaeth achosion, gan gynnwys:
6.1 cadw
6.2 storio
6.3 rhyddhau
6.4 dilysu
6.5 awdurdodi
7. pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd gwybodaeth, a sut i wneud hyn

SFJDC5

Cynnal cofnodion llys a thribiwnlys

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DC5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; achos; cofnodion; gwrandawiadau; trafodion; papurau; tystiolaeth; diogelwch |